Atgoffa trigolion na fydd gorchuddion plastig ystwyth yn cael eu casglu

Mae preswylwyr Powys yn cael eu hatgoffa na fydd bagiau plastig a gorchuddion plastig ystwyth yn cael eu casglu os byddant yn cael eu cyflwyno i'w casglu mewn blychau ailgylchu coch o fin y ffordd.

Ni ellir casglu eitemau plastig ystwyth megis bagiau plastig, gorchuddion cylchgronau, bagiau bwyd, gorchudd swigod a *cling film,* i'w hailgylchu yn y blwch plastig a chaniau (coch), a dylid eu gosod gyda'ch gwastraff cyffredinol yn y bin olwynion neu yn y sachau porffor. Er mai dyma fu'r achos am gryn amser, mae'r deunydd hwn wedi parhau i gael ei gasglu o fin y ffordd.

O'r 20 Mehefin, bydd y Cyngor yn mynd ati'n weithgar i orfodi hyn ac ni fydd blychau sy'n cynnwys gorchuddion plastig ystwyth yn cael eu gwagio. Byddant yn cael eu gadael wrth fin y ffordd er mwyn i'r preswyliwr dynnu'r gorchuddion plastig ystwyth allan o'r blwch gan osod yr eitemau cywir allan i'w casglu ar y diwrnod casglu nesaf ar yr amserlen. Mae'r broses hon i'w chynnal ar draws y sir dros gyfnod o dair wythnos. Bydd taflen fer yn manylu ar ba eitemau y gellir eu hailgylchu ai peidio yn y blwch plastig a chaniau yn cael ei adael ynghyd ag esboniad am y rheswm dros ei adael.

Dywedodd y Cynghorydd John Powell, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd: "Rydym yn cydnabod fod ein trigolion eisiau ailgylchu cymaint ag sy'n bosibl ond yn anffodus, dim ond deunyddiau y mae'r farchnad yn barod i'w derbyn y gallwn eu hailgylchu a hynny ar gost resymol i'r cyngor.

"Trwy dynnu'r eitemau anoddaf hynny allan o'r broses ailgylchu, gallwn ostwng costau ailgylchu a chael pris gwell am y deunydd. Gellir cywasgu gorchuddion plastig ystwyth yn rhwydd felly ni ddylai gymryd gormod o le yn eich bin olwynion na'r sachau porffor. Mae'n bwysig erbyn hyn ein bod yn sicrhau fod pob preswylydd yn ymwybodol o hyn trwy fynd ati'n weithgar gydag ailgylchu o fin y ffordd."

Ychwanegodd, "Mae gennym ni dîm o Ymgynghorwyr Gorfodaeth ac Ymwybyddiaeth am Wastraff a all ymweld â chartrefi i gynnig cyngor a chymorth i helpu trigolion ostwng faint o wastraff a gynhyrchir ac i ailgylchu'r holl ddeunyddiau y gallwn eu casglu. Os bydd preswylwyr yn gweld eu bod yn llenwi eu blychau ailgylchu yn rheolaidd bob wythnos, gellir gofyn am flychau ailgylchu ychwanegol ar-lein neu dros y ffôn."

Mae'r cyngor yn cynnig casgliad ailgylchu wythnosol o fin y ffordd ar gyfer nifer fawr o eitemau gan gynnwys hambyrddau plastig, poteli a thybiau, caniau bwyd a diod, papur a gwydr, poteli a jariau gwydr a gwastraff bwyd. Gellir ailgylchu eitemau plastig mwy megis teganau mewn canolfannau ailgylchu gwastraff o'r cartref.

Am ragor o wybodaeth am yr hyn y gellir ei ailgylchu ai peidio, edrychwch ar ein gwefan yn www.powys.gov.uk/recycle. Am help a chyngor ar ostwng eich gwastraff a chynyddu eich ailgylchu neu i ofyn am flychau ailgylchu ychwanegol, anfonwch e-bost at waste.awareness@powys.gov.uk neu gysylltu â ni ar 0845 602 7035

DIWEDD

Residents reminded that plastic film will not be collected

Powys households are being reminded that plastic bags and film will not be collected if put out for collection in the kerbside red recycling box.

Stretchy plastic items such as carrier bags, magazine wrappers, food bags, bubble wrap and cling film cannot collected for recycling in the plastic and cans (red) box, and should be placed in with your general waste in the wheeled bin or purple sacks. Whilst this has been the case for some time, this material has still been collected at the kerbside.

From 20 June, the Council will be proactively enforcing this and boxes containing plastic film will not be emptied and left at the kerbside for the householder to remove the plastic film and put the correct items out for collection on their next scheduled collection day. This will be carried out across the county over a three week period. A short leaflet detailing what items can and can't be recycled in the plastic and cans box will be left along with an explanation why it has been left.

Councillor John Powell, Cabinet Member for Environment and Sustainability, said: "We recognise that residents want to recycle as much as possible but unfortunately we can only recycle what the markets are prepared to accept and at a reasonable cost to the council.

"By removing these more difficult items we can reduce the costs of recycling and get a better price for the material. Plastic film can be easily compacted so shouldn't take up much room in your wheeled bin or purple sacks. It is important that we now ensure that all residents are aware of this through taking a proactive approach at the kerbside."

He added, "We have a team of Waste Awareness and Enforcement Advisers who can visit households to provide advice and assistance to help residents minimise the amount of refuse they produce and recycle all the material that we can collect. If households find that they are regularly filling their recycling boxes each week, additional recycling boxes can be requested online or by telephone."

The council provides a weekly kerbside recycling collection for a large number of items including plastic trays, bottles and tubs, food and drinks cans, paper and card, glass bottles and jars and food waste. Larger plastic items such as toys can be recycled at household waste recycling centres.

For more information on what can and can't be recycled please visit our website at www.powys.gov.uk/recycle. For help and advice on reducing your refuse and increasing your recycling or to request additional recycling boxes, please email waste.awareness@powys.gov.uk or contact us on 0845 602 7035

ENDS